

Adroddiad Cryno Mawrth 2025

Dyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent – Fforwm Dinasyddion



Crynodeb Gweithredol

Nid yw'r opsiynau teithio presennol ym Mlaenau Gwent bob amser yn deg, yn ddibynadwy, nac yn hygyrch i bawb. Ac yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen i drigolion newid sut maen nhw'n symud o gwmpas mewn ymateb i newid hinsawdd. Er mwyn cwrdd â'r ddwy her hon, mae Cyngor Blaenau Gwent yn datblygu **strategaeth dyfodol teithio** ar gyfer yr ardal leol.

Fel rhan o raglen [Byw Sero Net](#) Innovate UK, gweithiodd y cyngor gydag Involve (a ysgrifennodd yr adroddiad hwn), Forum for the Future, Ipsos, a Quantum i gynnal **fforwm dinasyddion ar ddyfodol teithio ym Mlaenau Gwent**. Y nod oedd rhoi uchelgeisiau dinasyddion ar gyfer dyfodol eu hardal wrth wraidd strategaeth deithio'r cyngor.

Daeth y broses â **19 o drigolion** at ei gilydd, yn adlewyrchu Blaenau Gwent ar draws gwahanol ddemograffeg.

Trwy **dair sesiwn wyneb yn wyneb**, dysgodd y grŵp am deithio gan ystod o siaradwyr. Roedd y pynciau yn cynnwys newid hinsawdd ac opsiynau ar gyfer ffyrdd gwell o deithio. Clywsant am yr heriau y mae cyngor Blaenau Gwent yn eu hwynebu, trafod atebion posibl a meddwl am eu profiadau eu hunain o deithio'n lleol.

Defnyddiodd y fforwm eu dysgu i ysgrifennu argymhellion ar gyfer cyngor Blaenau Gwent, yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn y **5 mlynedd** nesaf. Gwnaethant ddatblygu:

- gweledigaeth ar gyfer teithio tecach, gwyrddach a gwell
- argymhellion ar sut i gyrraedd yno
- canllawiau ar sut i gyflawni hyn mewn ffordd deg.

Mae'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yng **ngeiriau'r fforwm ei hun** yn yr adroddiad hwn. Mewn ymateb i argymhellion y fforwm, bydd y cyngor yn:

- cyflwyno adroddiad ac argymhellion y fforwm i aelodau etholedig i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu
- cyhoeddi a rhannu'r adroddiad hwn a'r argymhellion ar wefan y cyngor ac yn y gymuned ehangach
- cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r holl argymhellion, gan gynnwys ymatebion gan bartneriaid eraill a fydd yn cyflawni rhywfaint o'r gwaith hwn
- lle nad ydynt yn gallu symud unrhyw argymhellion ymlaen, nodi pam ac awgrymu dewisiadau amgen.



Pam dyfodol teithio?

Yn 2021, cynhaliodd Blaenau Gwent [gynulliad hinsawdd lleol](#). Argymhellodd y dinasyddion a gymerodd ran system drafnidiaeth fwy integredig a gwelliannau i opsiynau cerdded a beicio. Mae Cyngor Blaenau Gwent bellach yn gweithio tuag at oresgyn rhwystrau i system drafnidiaeth sero net a hoffai ddeall mwy am argymhelliad blaenorol y gynulliad hinsawdd.

Daeth y prosiect hwn ar adeg dda i ddylanwadu ar weledigaeth y cyngor ar gyfer y system drafnidiaeth leol yn y dyfodol, ac i siapio cyfraniadau'r cyngor i gynllun trafndiaeth rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru.

Mae gweledigaeth dinasyddion yn adeiladu ar wybodaeth gymunedol ac wedi'i gwreiddio yn y cyd-destun lleol. Mae'n cwrdd â phobl lle maen nhw, gan nodi rhwystrau ac adeiladu ar gryfderau unigryw eu cymuned. Ar yr un pryd, gwahoddir pobl i gamu'n ôl, i edrych ar y darlun ehangach ac i'r dyfodol.


Defnyddiodd y fforwm ym Mlaenau Gwent y dull hwn i greu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer teithio a chamau ymarferol i wireddu'r weledigaeth honno.

Pa gwestiwn oedd y broses hon yn bwriadu ei ateb?

Gofynnwyd i'r fforwm ymateb i'r cwestiwn: *Sut gall Blaenau Gwent ddod at ei gilydd i wneud teithio lleol yn decach, yn wyrddach ac yn well i bawb?*

Gweithiodd y fforwm dinasyddion gyda'i gilydd, gan drafod a chytuno ar:

- weledigaeth ar gyfer teithio tecach, gwyrddach a gwell
- set o argymhellion ar sut i gyrraedd yno
- canllawiau ar sut i gyflawni hyn mewn ffordd deg.





Trosolwg o Weledigaeth y Dinasyddion

Dysgu

Dysgodd cyfranogwyr am y pwnc gan ystod o siaradwyr, gan gynnwys rhai y gwnaethant ofyn amdanynt eu hunain. Roedd y pynciau yn cynnwys cyflwyniad i newid hinsawdd, effeithiau lleol ac atebion.

Trafod

Trafododd y cyfranogwyr y wybodaeth yr oeddent wedi'i chlywed a datblygu rhestr hir o syniadau, gan bwysu a mesur ffyrdd posibl ymlaen. Adolygodd y cyngor y rhain a rhoi adborth.

Penderfynu

Gweithiodd y cyfranogwyr gyda'i gilydd i adolygu adborth gan y cyngor a chytuno ar:

- Weledigaeth derfynol
- Set o argymhellion blaenoriaethol
- Canllawiau ar sut i gyflawni hyn mewn ffordd deg.



Pwy gymerodd ran?

Cafodd cyfanswm o 19 o bobl eu recriwtio i adlewyrchu poblogaeth Blaenau Gwent, yn fras.

Gwnaethom ddosbarthu llythyrau yn gwahodd pobl i gymryd rhan i 6,500 o gyfeiriadau preswyl a ddewiswyd ar hap ledled Blaenau Gwent. Gwnaethom ddewis aelodau'r fforwm dinasyddion o blith y rhai a oedd wedi derbyn llythyr a chofrestru.

Gwnaethom roi rhodd o ddiolch i aelodau'r grŵp am gymryd rhan ym mhob sesiwn, i wneud cyfranogiad yn hygyrch i bawb ac i gydnabod eu hamser. Gwnaethom hefyd dalu costau teithio ac unrhyw gostau ychwanegol fel gofal plant.

Sut cafodd cyfranogwyr eu dewis?

Gwnaeth ein partneriaid yn Sortition Foundation ddewis aelodau'r fforwm gan ddefnyddio math o loteri ddinesig o'r enw [sortition](#).


Cwblhaodd trigolion ffurflen i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan. O'r pwynt hwnnw, gwnaethom ddileu manylion personol a dewis grŵp gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol i adlewyrchu'r ardal yn fras o ran:

- Oedran
- Rhywedd
- Anabledd
- Ethnigrwydd
- Barn ar Newid Hinsawdd
- Perchnogaeth car
- Amser teithio cyfartalog i wasanaethau



Blaenau Gwent Citizens' Forum





Creodd y fforwm dinasyddion...

Gweledigaeth

Mae'r weledigaeth yn nodi sut y dylai teithio lleol ym Mlaenau Gwent edrych yn y dyfodol.

Fe'i datblygwyd gan aelodau'r fforwm yn ystod y sesiwn gyntaf drwy feddwl am beth maen nhw'n ei hoffi a beth nad ydyn nhw'n ei hoffi am deithio o amgylch Blaenau Gwent ar hyn o bryd, a sut hoffen nhw i opsiynau teithio fod yn y dyfodol.

13 o ganllawiau tegwch

Mae'r canllawiau'n gyfres o ddatganiadau ar yr hyn y mae'n ei olygu i deithio ym Mlaenau Gwent fod yn deg.

Esboniodd y fforwm pam fod pob canllaw yn bwysig iddyn nhw. Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau llawn yn Atodiad 5.

10 argymhelliad

Mae'r argymhellion yn alwad i weithredu o ran yr hyn y dylai'r cyngor a'i bartneriaid ei wneud i wella teithio ym Mlaenau Gwent.

Maent yn cynnwys:

- prif argymhelliad
- pam mae'n bwysig
- camau nesaf ymarferol.


Daeth y fforwm i fyny gyda syniadau cychwynnol yn yr ail gyfarfod. Yna adolygwyd y rhain gan y cyngor, y grŵp cynghori, a grwpiau lleol eraill. Cymerodd y fforwm yr adborth hwn a drafftwyd eu hargymhellion terfynol yn eu cyfarfod diwethaf.

Mae teithio teg ym Mlaenau Gwent yn golygu...

Drafftiodd y syniadau hyn gan y cyfranogwyr ac maen nhw yn eu geiriau eu hunain. Nid yw'r rhifau'n arwydd o flaenoriaeth na phwysigrwydd.

1. ...**bod pawb yn gallu cael mynediad** at drafnidiaeth yn gyffredinol, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig
2. ...**peidio â lleihau allyriadau sy'n** achosi newid hinsawdd cyn gynted â phosibl, os yw'n golygu y bydd rhai pobl yn colli allan ar allu cael **mynediad at drafnidiaeth**
3. ...**bodloni anghenion gwahanol** pobl
4. ...**peidio â gwahaniaethu**

5. ...**osgoi canlyniadau anfwriadol rhagweladwy** ac eithrio pobl trwy gamgymeriad, a lliniaru hyn pan mae'n digwydd
6. ...**bod buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol** yn flaenoriaeth ac yn haws i bawb (hyd yn oed os oes ganddynt gar)
7. ...**annog busnesau lleol** a sicrhau bod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth



Mae teithio teg ym Mlaenau Gwent yn golygu...

Drafftwyd y syniadau hyn gan y cyfranogwyr ac maen nhw yn eu geiriau eu hunain. Nid yw'r rhifau'n arwydd o flaenoriaeth na phwysigrwydd.

8. ...**targedu cymorth** (nid gwasanaethau*) lle mae'r angen mwyaf a/neu lle gellid cael yr effaith doniol fwyaf

9. ...**bod yn dryloyw** ynghylch sut a pham mae cefnogaeth wedi'i thargedu at wahanol grwpiau

10. ... nid dim ond edrych ar drafnidiaeth, ond hefyd ar **dechnolegau, pobl, a phrosesau fel galluogwyr trafnidiaeth.**


11. ...**peidio â gofyn i bobl wneud mwy nag y gallant ei wneud** – rhaid iddo fod yn ddiogel

12. ...nid yw'n deg gofyn i bawb wneud newidiadau trwy'r amser, ond gallech ofyn i'r **rhan fwyaf o bobl wneud un newid bach**

13. ...**dylid annog pobl sy'n gallu fforddio gwneud hynny'n gyfforddus i gyfrannu mwy.**

Fodd bynnag, nid yw'n deg cymryd yn ganiataol bod pobl o oedran gweithio yn gallu fforddio cyfrannu mwy

14. ...**bod cwmnïau yn gwneud eu rhan.**



Sut gall Blaenau Gwent ddod at ei gilydd i wneud teithio lleol yn decach, yn wyrddach ac yn well i bawb? Gallwn...


Lleihau'r defnydd o geir ar gyfer cymudo



Cael rampiau cadair olwyn ar drenau bob amser




Cynnwys y cyhoedd yn well wrth gynllunio trafnidiaeth




Ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo bysiau yn ôl i berthnogaeth cyhoeddus



Cynyddu opsiynau trafnidiaeth gyda'r nos




Gwella gwasanaethau tacsî



Cynnig opsiynau gwell ar gyfer teithiau ysgol




Hyrwyddo ac Ehangu Cynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol




Annog pobl i gerdded, beicio neu olwyno



Cynnig opsiynau gwell ar gyfer teithiau ysgol





Arweiniwyd y broses hon gan Sarah Allan. Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Frances Osborne a Daisy Thomson ym mis Mawrth 2025.

Involve yw elusen cyfranogiad cyhoeddus y DU, gyda chenhadaeth i roi pobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

www.involve.org.uk